



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**8 Hydref 2021**

**9:00 am – 10:30 am**

**trwy gyfrwng Zoom**

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Bethan E Jones (yn bresennol tan 10yb), Catrin Roberts, Chris Stockport (yn bresennol tan 10yb), Y Cynghorydd Cheryl Carlisle, Y Cynghorydd Christine Jones, Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Y Cynghorydd John Pritchard, Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (yn bresennol tan 10yb), Delyth Lloyd-Williams, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone (yn bresennol tan 10yb), Fôn Roberts, Helen Corcoran, Jenny Williams (yn bresennol tan 10yb), John Gallanders, Nicola Stubbins, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos
Ymddiheuriadau:	Barry Argent, Y Cynghorydd Bobby Feeley, Y Cynghorydd Christine Jones, Dr Lowri Brown, Jo Whitehead, Lucy Reid, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling, Paul Scott, Rob Smith, Roma Hooper, Sam Parry, Teresa Owen
Hefyd yn bresennol:	Sally Baxter, Cyfarwyddwr Cyswllt – Uned Gydgysylltu Coronafeirws, BIPBC

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</u> Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Estynnwyd croeso cynnes i'r Cynghorydd John Pritchard, Aelod Arweiniol Pobl - Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion, CBSW.	
2.	<u>Gofalwyr</u> <u>Yr Adroddiad Gofalwyr Diwedd Blwyddyn</u> Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan FJ ar Adroddiad Gofalwyr Diwedd Blwyddyn 2020-2021.  Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y defnydd o arian grant gofalwyr blynyddol LIC ar gyfer 2020/21 (£213k), a ddyrannwyd i BIPBC er mwyn gwella bywydau gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau cenedlaethol canlynol: 1. Helpu i fyw yn ogystal â gofalu 2. Adnabod a chydabod Gofalwyr 3. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth Mae dyraniad arian 2020-2021 wedi cael ei ddefnyddio i:	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Helpu practisiau meddygon teulu i ddatblygu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr a ffyrdd o weithio sy'n cefnogi gofalwyr       <ul style="list-style-type: none"> <li>– Gwella gwasanaeth atgyfeirio meddygon teulu a'r gwasanaeth brysbennu dros y ffôn.</li> <li>– Mae cyfathrebu dwys gyda meddygfeydd yn sgil y rhaglen frechu a'r ffurflen hunanatgyfeirio i ofalwyr gael brechiad wedi golygu bod gan y gweithwyr fwy o gyswllt â gofalwyr a mwy o ymwybyddiaeth ohonyn nhw.</li> </ul> </li> <li>• Cymorth i ofalwyr mewn perthynas â chynllunio i ryddhau unigolyn/ion sy'n derbyn gofal o'r tri phrif ysbyty a rhai ysbytai cymunedol.</li> <li>• Prosiectau tymor byr/ untro - Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc, a lanswyd ar draws gogledd Cymru ganol mis Mawrth 2021.</li> </ul> <p>Roedd yr Astudiaethau Achos a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn amlygu'r gweithgarwch a ddigwyddodd, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd.</p> <p>Bu i BPRhGC gydnabod y gwaith a wnaed ar yr adroddiad a chytuno i gymeradwyo Adroddiad Diwedd Blwyddyn Gofalwyr 2020-2021.</p> <p><u>Cynllun gwario ar gyfer gofalwyr 2021/22</u>  Cadarnhaodd FJ y bydd cyllid 2021-2022 (£213K) yn cael ei ddefnyddio i gydweithio â phob partner i wella bywydau gofalwyr yn unol â'r blaenoriaethau cenedlaethol uchod, a hefyd i ganolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd o astudiaethau achos 20/21 i wella'r gwasanaeth i Ofalwyr. Caiff y cyllid ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr</li> <li>• Gwella mynediad at wasanaethau cymorth Gofal Sylfaenol ac Eilaidd i ofalwyr</li> <li>• Helpu gofalwyr i gynnal eu rôl a'u lles eu hunain yn ystod ac yn dilyn pandemig COVID-19</li> <li>• Cefnogaeth Rheoli Prosiect i gyflawni'r uchod</li> </ul> <p>Cytunodd BPRhGC i gymeradwyo'r cynllun gwario arfaethedig ar gyfer Gofalwyr ar gyfer 2020-2021.</p>	
<p><b>3.</b></p>	<p><u>Cyllid Atodol – Trawsnewid Cymunedau</u>  Yn dilyn ymgysylltiad ag arweinwyr prosiect Trawsffurfio Gwasanaethau Cymunedol ar draws y rhanbarth, dywedodd CS bod y cynigion sydd ynghlwm wedi'u paratoi gan Dîm Ardal y Dwyrain, i'w hystyried yn erbyn llithriant cenedlaethol y Gronfa Drawsnewid.</p> <p>Yn unol â chanllawiau LIC, mae'r cynigion hyn yn ymwneud â gweithgarwch presennol lle rhagwelir y bydd gorwariant arnyn nhw, y byddai'n rhaid i'r partneriaid fod wedi'i ysgwyddo fel arall.</p> <p>Disgwylir i'r cynnig ariannol a ragwelir ar gyfer y rhanbarth fod o gwmpas £350k. Ar yr amod nad oes unrhyw gynigion llithriant eraill wedi'u cyflwyno ar draws y rhanbarth, mae rhaglen Drawsnewid Cymunedau Ardal y Dwyrain yn gwneud cais am gyfanswm y</p>	

	<p>gyllideb sydd ar gael (£348,000). Mae'r cynigion canlynol wedi cael eu cyflwyno i LIC:</p> <p>Cynnig 1: cais am £20,000 i gefnogi mwy o allu a gweithgarwch gan Gatalyddion Cymunedol mewn ymateb i broblemau gofal cartref sy'n gwaethgu yn Wrecsam.</p> <p>Cynnig 2: cais am £96,000 i ariannu gweithwyr cymorth adsefydlu penodedig i ymateb i gynlluniau isgyfeirio a ddatblygwyd drwy adolygiadau achosion cymhleth/ y Tîm Aml Ddisgyblaeth</p> <p>Cynnig 3: cais am £116,000 i helpu gyda'r costau ychwanegol a ysgwyddwyd fel rhan o ymestyn y Ganolfan Gartref yn Gyntaf yn y Dwyrain</p> <p>Cynnig 4: cais am £160,145 i dalu costau cyflogau llawn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 1 Uwch Ymarferydd llawn amser</li> <li>• 1.8 Therapydd Galwedigaethol llawn amser</li> <li>• 42 awr o waith Gofal Uniongyrchol (dydd) a 15 awr (nos) yn Cyflawni, sy'n rhan o Marleyfield House sydd wedi'i ymroi i ddarparu llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA). Fel arall, byddai'n rhaid i Gyngor Sir y Fflint dalu'r costau hyn.</li> </ul> <p>Gofynnir i BPRhGC gymeradwyo'r pedwar cynnig uchod gan y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn erbyn llithriant cenedlaethol, ar yr amod eu bod yn cael cymeradwyaeth gan y gweinidogion.</p> <p>Gofynnodd MW pa mor eang yr oedd y cynigion yn cael eu rhannu a phwy a gychwynnodd y cynigion; a p'un a yw'r cynnig i recriwtio i swyddi newydd yn debygol o achosi dad-sefydlogi pellach o fewn y sector gofal cartref.</p> <p>Eglurodd CR y cynigiwyd y cynigion yn erbyn pob un o'r pedair rhaglen drawsnewid, a'u bod wedi datblygu o'r Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol (RDGC) o fewn amserlen LIC. Rhannwyd y cynnig ymysg rheolwyr prosiectau trawsnewid presennol a'r tîm cydweithio rhanbarthol. Roedd disgwyliad LIC yn cydnabod cydweddiad â rhaglenni trawsnewid presennol LIC er mwyn sicrhau y gwariant mwyaf posib ar gyfer pob rhaglen.</p> <p>Cadarnhaodd CS bod y timau ardal a'r AauLI wedi bod yn gweithio'n ddiflino i lunio'r cynigion ac i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol, na fydd y cynigion yn dad-sefydlogi'r sector gofal cartref ymhellach.</p> <p>Cadarnhaodd AJ, o ran y ddau gynnig gan CBSW, mai canlyniadau disgwylidig un cynnig yw cynhyrchu cynnydd pellach a mwy o fomentwm i'r sector gofal cartref lleol. Nod ddisgwylidig yr ail gynnig yw sicrhau'r lefel briodol o ofal, gan osgoi gor-danysgrifio di-angen.</p> <p>Cytunodd BPRhGC i gefnogi'r pedwar cynnig uchod gan y RDGC yn erbyn llithriant cenedlaethol, ar yr amod eu bod yn cael cymeradwyaeth gan y gweinidogion.</p>	
4.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am adfywiad Strategaeth y BI, Byw'n Iach, Aros yn Iach</u></p> <p>Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan SB am Strategaeth y</p>	

BI, Byw'n Iach, Aros yn Iach

Dyweddodd SB bod y ddogfen drafod a rannwyd heddiw hefyd ar gael ar wefan BIPBC, gan wahodd aelodau BPRhGC i lenwi'r arolwg ar lein/ dros e-bost/ dros y ffôn i roi eu barn am adfywiad strategaeth y BI.

Eglurodd SB ei bod yn 3 blynedd ers datblygu'r strategaeth wreiddiol, ac o ganlyniad i'r pandemig, ei bod yn bryd ei hadfywio. Mae'r BI yn awyddus i sicrhau bod blaenoriaethau ac egwyddorion y BI yn parhau i fod yn ddilys. Hefyd, fe gyhoeddwyd strategaeth 2018 cyn cyhoeddi Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n disgrifio uchelgais y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gydweithio'n agosach, gan ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u dylunio o amgylch anghenion unigolion gyda mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach.

Bydd y BI yn ymgysylltu'n eang â staff, cleifion, sefydliadau partner a'r cyhoedd i bennu sut y mae Covid-19 wedi effeithio ar eu hiechyd a'u lles, a'r hyn y gellir ei ddysgu o'r profiad hwn.

Gofynnodd AJ a oedd yna unrhyw werth i ystyried y ddogfen hon fel cyd-strategaeth bosib i'w llywodraethu drwy'r BPRh, fyddai'n cynnig dull a strwythur cryfach ar y cyd.

Cadarnhaodd SB bod yna elfennau cyffredin yn bodoli, gan ganmol y partneriaid am ymateb i her Covid; fodd bynnag, cydnabyddir bod lle i gryfhau gwaith partneriaeth ymhellach, ac mai adfywiad yw'r ddogfen a gyflwynir heddiw, wedi'i seilio ar ddogfen wreiddiol BIPBC, yn hytrach na chychwyn ddogfen newydd.

Nododd LMH nad yw mewn sefyllfa i gymeradwyo'r ddogfen ar hyn o bryd, gan nad yw'r ddogfen yn cynnwys digon o gydnabyddiaeth o'r cydweithio a gafwyd rhwng sefydliadau partner dros y 18 mis diwethaf.

Cytunodd CS nad yw'r elfen bartneriaeth yn dod drosodd yn ddigonol yn yr adfywiad, gan na lwyddodd y ddogfen wreiddiol i dynnu sylw digonol at yr elfen bartneriaeth.

Dyweddodd EH bod YGAC hefyd yn gweithio ar waith adfywio cynnar ac y byddai'n croesawu trafodaeth i sicrhau bod YGAC a strategaeth y BI yn cydweddu.

Pwysleisiodd NS hefyd y cyfraniad i'r argyfwng diweddar, a yrrwyd ar lawr gwlad gan yr AauLI, y Trydydd Sector a BIPBC, o ran cynnal lles yn ystod y cyfnod clo.

Cytunodd SB i weithio ar y cynigion i adlewyrchu gwaith partneriaeth cryfach, gan fod angen mynd i'r afael â'r gwaith ardderchog a wnaed ar y cyd, a'r budd a gafodd unigolion ohono, gymaint ag y bo modd yn yr adfywiad.

Dyweddodd LMH y gellid diweddarau a diwygio tudalen 8, 'yr hyn a wnaethom', i adlewyrchu'r gwaith a wnaed ar y cyd ac mewn

	<p>partneriaeth â'r ALI a sectorau eraill, gan adlewyrchu gwell gwaith partneriaeth o fewn y strategaeth.</p> <p>Cadarnhaodd CS ymrwymiad BIPBC i ddatblygu'r rhaglen o bartneriaeth ar y cyd, gan addo datblygu hyn y tu allan i BPRhGC.</p>	
<p><b>5.</b></p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am is-grŵp Plant BPRhGC (ar lafar)</u> Cafodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan CR am y cynnydd yn y gwaith ar sefydlu is-grŵp Plant BPRhGC.</p> <p>Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ers y diweddariad diwethaf ym mis Mehefin 2021 ar fapio cyfarfodydd er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau nad yw'r grŵp hwn yn mynd yn haen arall o fewn y Gwasanaethau Plant.</p> <p>Mae tri rhag-gyfarfod yr Is-grŵp Plant wedi'u trefnu er mwyn datblygu diben y grŵp ar y cyd, a sicrhau bod y bobl gywir yn rhan o'i ddatblygu.</p> <p>Bu i gynrychiolydd BPRh Gorllewin Cymru ddod i'r rhag-gyfarfod cyntaf ym mis Medi i drafod eu profiad o ddatblygu grŵp Plant rhanbarthol, a bydd BPRhGC yn cadw cyswllt agos a'i gydweithwyr yng ngorllewin Cymru wrth i'r grŵp gael ei sefydlu.</p> <p>Bydd y ddau rag-gyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar gwblhau'r cylch gorchwyl, adolygu'r ddogfen fapio, blaenoriaethu aelodaeth y grŵp, cytuno ar fframwaith ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc a sicrhau bod strwythurau llywodraethu ac adrodd clir yn cael eu datblygu cyn y cyfarfod cychwynol ym mis Ionawr 2022.</p> <p>Nododd BEJ bod y gwaith o fapio fforymau presennol yn hanfodol gan fod perygl y bydd grwpiau presennol yn trafod yr un eitemau. Cafodd BEJ hefyd ar deall bod llawer iawn o frwdfrydedd yn y rhanbarth ar gyfer yr is-grŵp, a bod angen cofio seilio blaenoriaethau'r grŵp ar yr asesiad cyfredol o anghenion a sicrhau eu bod yn cynrychioli'r sefyllfa bresennol.</p> <p>Gofynnodd SLW a oedd yna gynrychiolydd tai ar yr is-grŵp, gan ALI neu Gymdeithas Tai, gan fod cartref yn allweddol i ddechreuad a datblygiad unrhyw blentyn. Gofynnodd ST hefyd a oedd yna gynrychiolydd y sector gwirfoddol/ trydydd sector ar yr is-grŵp.</p> <p>Cadarnhaodd cydweithwyr is-grŵp plant BPRhGC nad oedd yna unrhyw gynrychiolwyr tai na'r sector gwirfoddol/ trydydd sector ar y grŵp ar hyn o bryd, ac y bydd hyn yn cael ei drafod yn y rhag-gyfarfod nesaf ym mis Hydref.</p>	<p>CR i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am aelodaeth</p>
<p><b>6.</b></p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyfleoedd Cyllido'r Trydydd Sector</u> Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan JG mewn perthynas ag adnabod prosiectau a chynigion i baratoi ar gyfer unrhyw geisiadau am gyllid yn y dyfodol drwy CGI a'r rhaglen drawsnewid.</p> <p>Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol wrthi'n gweithio ar ddau gynnig, ac mae gan y ddau ganllawiau penodol mewn perthynas ag</p>	

	<p>ymsgysylltu â'r Trydydd Sector:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unigrwydd ac unigedd - ffrwd gyllido dair blynedd</li> <li>• Cronfa Heneiddio'n Dda – gwariant tymor byr yn ystod y flwyddyn</li> </ul> <p>Adroddodd JG hefyd bod cynigion tymor byr afrealistig yn dal i ddod i law.</p> <p>Dywedodd JG ei fod yn ymwybodol o sawl cais am gyllid o ogledd Cymru sy'n ymwneud yn benodol â lechyd Meddwl Pobl Ifanc, gan erfyn ar bob sefydliad i ymgysylltu'n llawn â'r sector gwirfoddol o gychwyn y broses gyllido.</p> <p>Roedd JG hefyd o'r farn y dylid gwneud sylwadau ffurfiol i LIC mewn perthynas â sut i ddelio â'r broses lithriant, h.y. i'w wario o fewn blwyddyn ariannol yn hytrach na chael ei ddefnyddio ar gyfer yr anghenion mwyaf priodol heb derfynau amser.</p> <p>Dywedodd CR, gan fod y rhaglenni trawsnewid yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2022, bod y rhaglenni'n cael eu monitro bob chwarter ac y gallai lithriant ddigwydd eto rhwng nawr a diwedd y flwyddyn. Fel egwyddor cyffredinol, cadarnhaodd CR bod cydweithwyr wrthi'n codi'r mater hwn mewn trafodaethau â LIC ar gyllid y dyfodol.</p>	
7.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (AAP) a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF)</u></p> <p>Cafwyd trosolwg gan CR o'r cynnydd hyd yma ar yr AAP a'r ASF. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu'r galw am anghenion gofal a chymorth ymysg eu poblogaeth leol drwy Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, erbyn mis Ebrill 2022, ac i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried pa mor ddigonol a sefydlog yw'r cyflenwad i fodloni'r galw hwnnw drwy Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad erbyn mis Mehefin 2022, a hynny drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Cadarnhaodd CR bod dadansoddiad data ac adolygiadau gwasanaeth yr AAP ar y trywydd cywir i gael eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2021. Mae llawer iawn o waith ymgysylltu wedi'i gyflawni ar draws y rhanbarth. Mae'r dasg o ysgrifennu'r adroddiad wedi dechrau ac mae wedi cael ei ddsbarthu i gael sylwadau'r partneriaid. Mae arweinwyr lleol hefyd yn asesu'r data a gyflwynwyd ac yn llunio blaenoriaethau lleol i fwydo i mewn i'r adroddiad.</p> <p>Mae gwaith ar yr ASF hefyd yn mynd rhagddo'n dda. Mae templed ar gyfer adroddiadau lleol wedi'i seilio ar y cod ymarfer wedi cael ei ddatblygu, ynghyd â phe cyn adnoddau i helpu casglu data a dechrau canfod ffynonellau ar gyfer data allweddol i fwydo i'r adroddiad.</p> <p>Bydd gwaith yn parhau ar y ddwy ffrwd waith, yr arolwg AAP, casglu a dadansoddi data a diweddarau penodau ac adrannau y ddau adroddiad.</p>	

	Nododd BPRhGC y cynnydd a wnaed ar yr adroddiadau AAP ac ASF.	
8.	<p><u>Adferiad (diweddariad llafar)</u> Wrth drafod adferiad, bu i NS gydnabod bod y rhanbarth yn parhau i fod yn nghanol mynd i'r afael â goblygiadau Covid-19. Er gwaethaf hyn, parheir i ddarparu'r wybodaeth diweddaraf i'r RCG mewn perthynas â blaenoriaethau adfer bob mis.</p> <p>Mae nifer o gyfarfodydd /gweithdai RCG a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi canolbwyntio ar y pwysau yn y system ar hyn o bryd, yn benodol ar ofal cartref a'r effaith ar y system laGC ehangach.</p> <p>Dywedodd NS bod Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru wedi drafftio llythyr i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi pryderon penodol, sef y prif bwysau o fewn y system a phryder mawr wrth i'r gaeaf agosáu.</p>	<p>Dosbarthu adroddiadau mis Medi RCG - RW</p> <p>Dosbarthu'r llythyr i MS ynglŷn â'r pwysau</p>
9.	<p><u>Nodiadau a champau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – mis Medi 2021</u> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10.9.2021 yn gofnod cywir.</p> <p>Camau Gweithredu a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn perthynas â chworwm – mae'r holl adroddiadau wedi'u dosbarthu i'w cymeradwyo a derbyniwyd cytundeb yr Aelodau Etholedig</li> </ul> <p>Camau Gweithredu sydd eto i'w cwblhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun y Gaeaf – bydd yr adroddiad terfynol ar Gynllun y Gaeaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod BPRhGC ym mis Tachwedd</li> <li>• Nodiadau o weithdy 7.9.2021 – Pwysau o fewn Gofal Cartref – nodiadau i gael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod</li> <li>• Trafodaeth Gofal a Thrwsio ac Adre o'r Ysbyty – cadarnhaodd SW bod trafodaeth am yr agwedd ataliol wedi'i chynnal â ME. SLW i gysylltu â NS am drafodaeth.</li> <li>• JW i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am olrhain myfyrwyr gwaith cymdeithasol – i'w gwblhau</li> </ul>	<p>Rhaglen cyfarfod mis Tachwedd</p> <p>I'w dosbarthu SLW i gysylltu â NS JW i roi diweddariad</p>
10.	Unrhyw fater arall – dim byd i'w adrodd	
	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b> Dydd Gwener 12 Tachwedd 2021	